

Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol (Tapro, Hawliau i Daliadau a Chau) (Cymru) 2025

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Grŵp Llywodraeth Leol, Tai, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad Ysgrifennydd y Cabinet

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol (Tapro, Hawliau i Daliadau a Chau) (Cymru) 2025. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Huw Irranca-Davies AS

Y Dirprwy Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

4 Tachwedd 2025

RHAN 1 – MEMORANDWM ESBONIADOL

1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r gyfraith a gymathwyd sy'n ymwneud â Chynllun y Taliad Sylfaenol yng Nghymru. Maent yn darparu ar gyfer graddio taliadau o dan Gynllun y Taliad Sylfaenol o 2026 hyd nes ei gau ar 31 Rhagfyr 2028. Mae'r Rheoliadau hefyd yn cyflwyno cyfyngiadau ar drosglwyddo a defnyddio hawliau, atal newydd-ddyfodiaid rhag cael mynediad i'r cynllun, a chau'r Cronfeydd Wrth Gefn Cenedlaethol a Rhanbarthol. Mae'r newidiadau hyn yn rhan o broses Llywodraeth Cymru o bontio i fframwaith cymorth amaethyddol newydd o dan Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Dim.

3. Cefndir deddfwriaethol

Mae Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i ddiwygio neu ddiddymu cyfraith a gymathwyd sy'n ymwneud â chynllun y taliad sylfaenol. Mae'r Rheoliadau hyn yn arfer y pwerau hynny i ddiwygio:

- Rheoliad (UE) Rhif 1307/2013 (Rheoliad Taliadau Uniongyrchol)
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (UE) Rhif 639/2014
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 809/2014
- Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2015

Mae'r Rheoliadau yn cael eu gosod gerbron Senedd Cymru i'w cymeradwyo drwy benderfyniad, yn unol ag adran 50(6) o Ddeddf 2023.

4. Diben ac effaith fwriedig y ddeddfwriaeth

4.1 Graddio Taliadau

Mae'r Rheoliadau yn grymuso Gweinidogion Cymru i leihau taliadau Cynllun y Taliad Sylfaenol yn flynyddol.

Gan ddechrau o gyfradd sylfaenol a osodir yn 2025, bydd y taliadau'n cael eu lleihau yn 2026. Bydd hyn yn parhau i leihau'n flynyddol nes bod taliadau yn cyrraedd sero, ac ar y pwynt hwnnw bydd y cynllun yn cau. Bwriad y gostyngiad graddol hwn yw rhoi cyfnod pontio clir a rhagweladwy i ffermwyr fel y gallant baratoi ar gyfer y fframwaith cymorth newydd.

4.2 Cau'r Cynllun

Mae'r Rheoliadau'n cadarnhau bod Cynllun y Taliad Sylfaenol yn cau'n ffurfiol ar 31 Rhagfyr 2028. Mae hyn yn cyd-fynd â pholisi Llywodraeth Cymru i ddileu'n raddol gynlluniau etifeddol yr UE a'u disodli gyda system gymorth a gynlluniwyd yn ddomestig sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd, gwydnwch a gweithredu ar newid hinsawdd.

4.3 Cyfyngiadau ar Drosglwyddo Hawliau

Er mwyn atal hapfasnachu a sicrhau bod hawliau yn gysylltiedig â gweithgarwch amaethyddol dilys, mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i bob hawl gael ei throsglwyddo gyda hectar cymwys yn yr un trafodiad gan yr un trosglwyddwr. Mae'r newid hwn yn cefnogi uniondeb y cynllun yn ystod ei gyfnod dirwyn i ben.

4.4 Gwahardd hawliadau newydd am Daliadau i Ffermwyr Ifanc

Ar ôl 1 Ionawr 2026 dim ond hawlwr sydd eisoes wedi hawlio'r Taliad i Ffermwyr Ifanc fydd yn cael parhau i hawlio hyd at yr uchafswm o bum mlynedd. Bydd hyn yn annog unigolion i fanteisio ar gymorth arall yn gynharach.

4.5 Cau Cronfeydd Wrth Gefn Cenedlaethol a Rhanbarthol

Mae'r Rheoliadau'n hepgor darpariaethau sy'n ymwneud â'r Cronfeydd Wrth Gefn Cenedlaethol a Rhanbarthol, a thrwy hynny yn atal dyrannu hawliau ychwanegol o'r cronfeydd wrth gefn hyn. Mae'r mesur hwn yn cefnogi'r broses o gau Cynllun y Taliad Sylfaenol mewn dull a reolir ac osgoi creu rhwymedigaethau newydd.

4.6 Diwygiadau Canlyniadol

Mae'r Rheoliadau yn gwneud diwygiadau angenrheidiol i'r gyfraith a gymathwyd i adlewyrchu graddio a chau Cynllun y Taliad Sylfaenol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Disodli iaith orfodol ("rhaid") gydag iaith ddewisol ("caiff") mewn darpariaethau sy'n ymwneud â therfynau taliadau.
- Dileu darpariaethau sydd wedi dyddio nad ydynt bellach yn gymwys o dan y fframwaith polisi newydd.

5. Ymgynghoriad

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad cyhoeddus yn 2023 ar ddyfodol cymorth amaethyddol yng Nghymru. Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys cynigion ar gyfer graddio, newidiadau i drosglwyddo a lesio hawliau, cau'r Gronfa Wrth Gefn Genedlaethol, cyfyngu ar fynediad at daliadau i Ffermwyr Ifanc, rhoi terfyn ar adennill hawliau, cau Cynllun y Taliad Sylfaenol a chyflwyno Cynllun Disodli. Roedd rhanddeiliaid, gan gynnwys undebau ffermio, sefydliadau

amgylcheddol a chymunedau gwledig, yn cefnogi pontio graddol a'r egwyddorion sy'n sail i'r fframwaith cymorth newydd.

Gwnaeth adborth o'r ymgynghoriad lywio dyluniad y Rheoliadau hyn, yn enwedig y mecanwaith graddio a'r cyfyngiadau ar drosglwyddo hawliau.

RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

Mae'r Rheoliadau hyn yn caniatáu ar gyfer tapro taliadau'r Cynllun Taliad Sylfaenol (BPS) o 2026 hyd at ei gau ar 31 Rhagfyr 2028 fel rhan o Gyfnod Pontio 2026 – 2029. Mae'r Rheoliadau yn cyflwyno hefyd newidiadau i'r drefn trosglwyddo hawliau BPS, yn cau'r cynllun Taliad i Ffermwyr Ifanc ar gyfer hawlwyr newydd, ac yn cau'r Cronfeydd Wrth Gefn Cenedlaethol a Rhanbarthol ar gyfer hawliau BPS newydd. Mae'r newidiadau hyn yn rhan o'r pontio i fframwaith cymorth amaethyddol newydd, sef y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) o dan Ddeddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023.

Uchelgais y polisi sy'n sail i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn yw tapro cymorth BPS o ran cyfraddau talu 2025. Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad modelu a welir yn y **Papur Atodiad** atodedig yn seiliedig ar ddata 2023, sef y set ddata ddiweddaraf a mwyaf cadarn a oedd ar gael adeg y modelu. Mae'r model yn cynnwys strwythur y fferm, cyfraddau talu hawliau BPS, a llinellau sylfaen economaidd sy'n deillio o Arolwg Busnes Fferm 2022–23 a ffynonellau eraill. Er nad yw'r modelu yn adlewyrchu amodau 2025 ei hun, mae'n rhoi syniad gwerthfawr o effeithiau senarios tapro posibl (80% a 60%) ar incwm a hyfywedd ffermydd, gan dybio bod gan y ddwy amodau strwythurol ac economaidd tebyg.

Mae'r costau a'r manteision a gyflwynir yn yr asesiad hwn yn adlewyrchu senario lle mae pob fferm amser llawn cymwys yn aros yn y BPS ac nad ydynt yn dewis ymuno â'r SFS yn 2026. Mae'r rhagdybiaeth hon yn caniatáu cymhariaeth gyson ar draws senarios tapro ac yn amlygu effaith taliadau BPS is. Dylid nodi y bydd rhai ffermydd yn dewis ymuno â'r SFS. Gallai hynny newid gwasgariad costau a manteision. Fodd bynnag, at ddibenion yr ymarfer modelu hwn, mae'r dadansoddiad yn tybio bod pawb yn aros yn y BPS, hynny i roi dealltwriaeth glir i ni o effeithiau tapro gyda chyfranogaeth sefydlog.

6. Yr Opsiynau

Dyma'r opsiynau ar gyfer polisi Tapro BPS a ystyriwyd ac a ddadansoddwyd, ac a nodir yn y **Papur Atodiad**:

1. Cadw pethau fel y maent (Gwrthffeithiol) – Parhau i dalu 100% o gyfradd talu hawliau 2023 Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS), gyda'r gofynion rheoleiddiol cyfredol (e.e., Rheoliadau CoAP) mewn grym.
2. Senario Tapro 80% – Lleihau cyfradd talu hawliau BPS i 80% o gyfradd 2023.
3. Senario Tapro 60% – Lleihau cyfradd talu hawliau BPS i 60% o gyfradd 2023.

Nid yw'r dadansoddiad o'r 3 opsiwn yn cynnwys cynlluniau Buddsoddi Gwledig/Paratoi ar gyfer yr SFS ac yn cymryd yn ganiataol na fydd busnesau fferm yn hawlio unrhyw elfen o'r SFS drwy'r cyfnod pontio. Mae'r dadansoddiad yn canolbwyntio ar y goblygiadau i fusnesau fferm sy'n dewis parhau i hawlio cymorth BPS yn ystod y cyfnod pontio, er bod cymorth a chyllid ar gael drwy'r SFS. Mae Sylfaen Rheoleiddio Trawsgydymffurfio yn parhau'n berthnasol.

Trosglwyddo Hawliau BPS gyda Thir yn Unig

- Atal hapfasnachu hawliau.
- Sicrhau bod hawliau'n parhau i fod yn gysylltiedig â gweithgarwch amaethyddol go iawn.
- Cynnal integriti'r cynllun yn ystod y cyfnod dirwyn i ben a'r cyfnod pontio.

Cau i Hawliadau am Daliad Ffermwyr Ifanc Newydd

- Annog ymgysylltu cynt â chynlluniau cymorth eraill (e.e. SFS).
- Osgoi rhwymedigaethau newydd o dan gynllun sydd ar fin cau.
- Alinio llinell amser tapro ag amser cau'r BPS.

Cau Cronfeydd Wrth Gefn Cenedlaethol a Rhanbarthol i hawliau BPS Newydd

- Peidio â dyrannu hawliau newydd yn ystod y cyfnod dirwyn i ben.
- Osgoi beichiau gweinyddol ac ariannol sy'n gysylltiedig â rheoli cronfeydd wrth gefn.
- Atgyfnerthu'r pontio i fframwaith cymorth newydd.

7. Costau a manteision

Costau

Bernir bod y baich gweinyddol ar fusnesau fferm sy'n gysylltiedig ag ystyried a derbyn y newidiadau i'r BPS yn fach ac felly heb arwyddocâd.

Gostyngiad yn y taliadau BPS blynyddol:

- Senario 80%: £28.7m o ostyngiad
- Senario 60%: £57.4m o ostyngiad

Yn y papur atodedig ar Fodelu Integredig, cyfeirir at fath o fferm. Y gwariant uchaf o dan y senario Gwrthffeithiol a'r senarios Tapro yw ar gyfer Defaid Arbenigol yn yr Ardal dan Anfantaï Fawr (SDA), Godro a phori cymysg yn yr SDA. Mae hyn yn adlewyrchu niferoedd mwy ac arwynebedd mwy y ffermydd hyn. Y ffermydd hyn sydd hefyd yn gweld y gostyngiadau mwyaf yn eu taliad BPS cyfanredol.

Incwm Busnes Fferm Blynyddol (FBI):

- Senario 80%: 9.6% o ostyngiad yn yr FBI cyfanredol
- Senario 60%: 19.3% o ostyngiad yn yr FBI cyfanredol

Yn ôl y papur Modelu Integredig, o'i gymharu â'r senario Gwrthffeithiol, mae tapro cymorth BPS i 80% yn arwain at ostyngiad efelychol o 9.6% yng nghyfanswm yr FBI. Er bod pob math o fferm yn profi dirywiad cyfanredol yn yr FBI, nid yw'r effaith yr un faint ar draws pob sector. Mae'r gwahaniaeth hwn yn adlewyrchu gwahaniaethau yn lefel dibyniaeth gymharol mathau o ffermydd ar BPS, o'i

gymharu ag incwm sy'n deillio'n uniongyrchol o weithgareddau ffermio a ffynonellau anamaethyddol.

Byddai tapro'r BPS i 60% yn arwain at ostyngiad o 19.3% yng nghyfanswm yr FBI. Unwaith eto, effeithir ar bob math o fferm, ond nid yw'r gostyngiad yn yr FBI yn uniongyrchol gymesur â'r gostyngiad o 40% mewn taliadau BPS.

Effeithiau Taliad wedi'i Ailddosbarthu:

- Mae effeithiau anghymesur ar draws mathau o ffermydd oherwydd dibyniaeth amrywiol ar BPS am broffidioldeb.

Costau Gweinyddol:

- Mae'r costau gweinyddol a ysgwyddir gan Lywodraeth Cymru wrth newid y BPS yn cael eu hystyried yn fach.

Trosglwyddo Hawliau BPS gyda Thir

- Gall gyfyngu ar hyblygrwydd i ffermwyr.
- Mân faich gweinyddol posibl o orfod dilysu trosglwyddiadau tir cymwys.
- Bydd cyfyngiadau ar ffermwyr sydd am drosglwyddo hawliau oni bai eu bod yn eu trosglwyddo gyda thir amaethyddol.

Cau i Hawliadau am Daliad Ffermwyr Ifanc Newydd

- Bydd yn lleihau cymorth ariannol tymor byr i ffermwyr ifanc newydd.

Cau Cronfeydd Wrth Gefn Cenedlaethol a Rhanbarthol

- Yn gwrthod y dewis o BPS i ffermwyr newydd neu ffermwyr ifanc newydd yn ystod y cyfnod pontio.

Manteision

Arbedion cyllidol:

- Gostyngiad mewn gwariant cyhoeddus ar daliadau BPS.
- Ailddyrannu arian i SFS Cyffredinol, sy'n cyd-fynd ag amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy.

Cysondeb â'r Polisi:

- Cefnogi'r pontio at y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Canlyniadau amgylcheddol:

- Dim newidiadau sylweddol mewn defnydd tir, stocio, na mewnbynnau maetholion o dan y senarios tapro.

- Mae rheoliadau CoAP eisoes yn gostwng y defnydd o wrtaith nitrogen a thail gwartheg godro.

Trosglwyddo Hawliau BPS gyda Thir

- Lleihau'r risg o hapfasnachu ac ystumio'r farchnad wrth werthu a phrynu hawliau.
- Yn gwneud y cynllun yn haws ei reoli dros y cyfnod tapro.

Cau i Hawliadau am Daliad Ffermwyr Ifanc Newydd

- Annog trosglwyddo i SFS, sy'n cynnwys cymorth i ffermwyr newydd.
- Osgoi rhwymedigaeth hirdymor o dan gynllun sydd ar fin cau.

Cau Cronfeydd Wrth Gefn Cenedlaethol a Rhanbarthol

- Helpu i gau'r BPS mewn ffordd drefnus.
- Osgoi creu hawliau newydd.
- Lleihau cymhlethdod a chostau gweinyddol.

8. Asesu'r gystadleuaeth

Mae dadansoddiad yn awgrymu:

- Efallai y bydd mwy o bwysau ariannol ar ffermydd bach a ffermydd yr ucheldir.
- Dim effaith uniongyrchol ar fecanweithiau cystadleuaeth y farchnad.

9. Adolygu ar ôl gweithredu

Argymhellir cynnal adolygiad dair blynedd ar ôl gweithredu'r tapro i asesu effaith y pontio i'r SFS. Bydd yr adolygiad hwn yn canolbwyntio ar:

- Y defnydd o'r SFS ymhlith ffermydd cymwys, gan gynnwys cyfraddau cyfranogiad a gwasgariad rhwng rhanbarthau.
- Canlyniadau cymryd rhan yn yr SFS, megis gwella perfformiad amgylcheddol, gwytnwch ffermydd, a hyfywedd economaidd.
- Effeithiolrwydd y polisi tapro wrth annog ffermwyr i symud i'r SFS a lleihau dibyniaeth ar daliadau uniongyrchol.

Unrhyw ganlyniadau anfwriadol ar ddefnydd tir, rheoli da byw, neu'r rhoi gorau i ffermio.

Bydd monitro yn seiliedig ar ddata sylfaenol y Platfform Modelu Integredig (IMP), yr Arolwg Busnes Fferm a metrigau cofrestru a pherfformiad yr SFS.

10. Crynodeb

Tapro taliadau hawliau'r BPS i 60% o gyfradd 2023, Trosglwyddo Hawliau BPS gyda Thir, Cau Hawliadau am y Taliad Ffermwyr Ifanc Newydd, Cau Cronfeydd Wrth Gefn Cenedlaethol a Rhanbarthol. Bwriad hyn yw ysgogi ffermwyr i drosglwyddo i'r SFS, lle gallant elwa ar gymorth a chymhellion wedi'u targedu sy'n cefnogi canlyniadau economaidd ac amgylcheddol.

Rhesymau:

- Yn darparu arbedion cyllidol.
- Yn annog defnydd o system gymorth mwy cynaliadwy ac sydd wedi'i dargedu'n well, trwy'r SFS.
- Cynnal safonau amgylcheddol.
- Atal rhwymedigaethau BPS newydd.
- Yn darparu cyfnod pontio o'r BPS i'r SFS.

Atodiad A - Platfform Modelu Integredig

Mae'r adran hon yn defnyddio dadansoddiad o Blatfform Modelu Integredig¹ (IMP) Rhaglen Monitro a Modelu Materion Gwledig a'r Amgylchedd (ERAMMP). Mae'r IMP yn offeryn ar gyfer archwilio effeithiau ymyriadau polisi a rheoli ar hyfywedd ffermydd, defnydd tir a chanlyniadau amgylcheddol yng Nghymru. Mae'n defnyddio dull gweithredu integredig sy'n cydnabod bod ymyriadau yn cael effeithiau lluosog a bod effeithiau polisi mewn un sector yn cael effeithiau anuniongyrchol ar sectorau eraill. Mae'n cynnwys cadwyn o fodelau arbenigol o'r radd flaenaf sy'n cwmpasu amaethyddiaeth, coedwigaeth, penderfyniadau dyrannu defnydd tir, dŵr, aer, priddoedd, bioamrywiaeth, gwasanaethau ecosystem a phrisio.

Mae'r IMP yn cael ei gymhwyso i ffermydd amser llawn (>1 gweithiwr Cyfwerth ag Amser Llawn). Mae newidiadau mewn defnydd tir yn cael eu sbarduno gan economeg ar ffermydd ac addasrwydd tir. Nid ydynt yn ystyried sgiliau, ymatebion diwylliannol neu ymddygiad.

Y sylfaen economaidd ar gyfer yr IMP yw 2023. Mae data'r Arolwg o Fusnesau Ffermio ar gyfer 2022-23 yn fewnbwn allweddol ar gyfer y model ochr yn ochr â phrisiau cost a nwyddau o John Nix Management Pocketbook (2023).

Mae rhagdybiaethau llawn sy'n sylfaen i'r model wedi'u cynnwys yn Adroddiad ERAMMP 133.²

Mae'r model yn amcangyfrif yr effeithiau ar gyfer 7,401 o ffermydd amser llawn yng Nghymru. Mae'r boblogaeth enghreifftiol hon yn cynnwys:

- 30%³ o'r tua 24,608 o ffermydd gweithredol yn arolwg amaethyddol mis Mehefin
- 73% o'r holl wartheg (78% o wartheg eidion a 69% o laeth) yng Nghymru
- 83% o'r holl ddefaid yng Nghymru
- 67% o bori garw, 61% o dir cnydau a 50% o laswellt wedi'i wella, sy'n cynnwys 76% o laswellt dros dro a 46% o laswellt parhaol

Mae Tabl 1 yn dangos nifer y ffermydd yn ôl math o fferm, a chyfanswm yr arwynebedd a gynrychiolir gan bob un o'r mathau hyn o fferm. Ffermydd defaid arbenigol, ffermydd llaeth, a ffermydd cymysg Ardal dan Anfantaes Fawr (SDA) yw'r ffermydd mwyaf cyffredin yn y model. O ran arwynebedd fferm cyfanredol, ffermydd defaid arbenigol, SDA cymysg a llaeth sydd â'r arwynebedd mwyaf.

Tabl 1. Niferoedd ffermydd amser llawn IMP ac arwynebedd yn ôl math o fferm

¹ [Platfform Modelu Integredig \(IMP\) / ERAMMP](#)

² www.erammp.wales/133

³ Mae'r diffyg yn cynrychioli ffermydd rhan-amser/micro ac ansicrwydd wrth ddyrannu'r System Adnabod Parseli Tir (LPIS) i ffermydd amser llawn. Oherwydd cyfyngiadau data, nid oedd modd nodi pob fferm amser llawn a'r holl dir sy'n gysylltiedig â ffermydd amser llawn yng Nghymru.

Math o fferm	Cyfanswm y ffermydd	Cyfanswm yr arwynebedd (yn cynnwys arwynebeddau nad ydynt yn amaethyddol⁴)	Maint cyfartalog y fferm (hectar)
Grawnfwydydd	97	20,842	215
Cnydau Cyffredinol	52	7,109	137
Llaeth	1,260	163,485	130
Gwartheg a defaid yr iseldir	679	63,665	94
Cymysg ⁵	255	33,824	133
Arall ⁶	317	18,383	58
Defaid Arbenigol (SDA)	2,257	342,804	152
Gwartheg Eidion Arbenigol (SDA)	184	34,007	185
SDA cymysg	1,139	164,305	144
Pori cymysg DA	1,161	124,854	108
Cyfanswm	7,401	973,278	132

Disgrifiad o senarios modelu: Llinell sylfaen, disgrifiad o'r senario a chymhariaeth â'r senario Gwrthffeithiol (BAU)

Llinell sylfaen

Mae'r senarios yn cael eu cyflwyno ar ben llinell sylfaen.

Mae'r llinell sylfaen ar gyfer y senarios yn y dadansoddiad hwn yn cynnwys y nodweddion canlynol:

- Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS) yn cael ei dalu⁷, heb unrhyw dapr
- Nid yw'n cynnwys cynlluniau Buddsoddi Gwledig/Paratoi'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy
- Mae safonau cyflwr amaethyddol ac amgylcheddol da (GAECs) yn berthnasol

⁴Mae ardaloedd nad ydynt yn rhai amaethyddol yn cynnwys creigiau noeth, adeiladau, buarthau, twyni tywod, a fflatiau llaid. Mae'r arwynebeddau hyn wedi'u heithrio o'r cyfrifiadau modelu.

⁵Cymysg: daliadau lle nad oes un categori yn gyfrifol am fwy na dwy ran o dair o gyfanswm y Cynnyrch Safonol.

⁶Arall: daliadau nad ydynt yn perthyn i unrhyw un o'r categorïau diffiniedig. Mae'r categori hwn yn cynnwys daliadau nad oes modd eu dosbarthu.

⁷Heb gynnwys taliadau ar dir comin neu ychwanegiad y Ffermwyr Ifanc.

- Nid yw Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 yn berthnasol

Nid oes unrhyw elfen o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar gael.

Senario Gwrthffeithiol (BAU)

Defnyddir y senario gwrthffeithiol (BAU) er mwyn cymharu effeithiau senario'r Ffordd Ymlaen a Ffeirir (PWF). Ar gyfer y gwaith modelu hwn, mae'r senario gwrthffeithiol wedi'i gynllunio i ddarparu gwybodaeth am effeithiau posibl parhau i dalu BPS ar gyfradd lawn. Yn y senario modelu hwn, mae'r elfennau canlynol yn cael eu hefelychu:

- Cynllun y Taliad Sylfaenol (BPS) yn cael ei dalu, heb unrhyw dapr
- Nid yw'n cynnwys cynlluniau Buddsoddi Gwledig/Paratoi'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (dim newid o'r llinell sylfaen)
- Mae GAECs yn parhau i fod yn berthnasol (dim newid o'r llinell sylfaen)
- Mae Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 yn berthnasol i bob fferm, gan gynnwys costau cydymffurfio
- Nid oes unrhyw elfen o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar gael

Senarios Tapr: 80% a 60%

Y senarios Tapr yw'r rhai lle mae BPS yn cael ei leihau o gymharu â chyfradd taliad BPS 2023 a ddefnyddiwyd yn y senarios llinell sylfaen a gwrthffeithiol. Mae dau senario Tapr (80% o gyfradd 2023 a 60% o gyfradd 2023) yn cael eu modelu. Yn ogystal â'r gostyngiad wedi'i fodlu o BPS, mae'r elfennau canlynol yn cael eu hefelychu yn y senarios hefyd:

- Nid yw'n cynnwys cynlluniau Buddsoddi Gwledig/Paratoi'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (dim newid o'r llinell sylfaen)
- Mae GAECs yn parhau i fod yn berthnasol (dim newid o'r llinell sylfaen)
- Mae Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 yn berthnasol i bob fferm, gan gynnwys costau cydymffurfio
- Nid oes unrhyw elfen o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar gael.

Cafodd y gwerthoedd talu canlynol eu cymhwyso i bob fferm enghreifftiol:

Tabl 2. Efelychiad o gyfraddau taliadau BPS

Blwyddyn sylfaen 2023	Hawl i Daliad Safonol	Taliad wedi'i ailddosbarthu ar y 54 hectar cyntaf
------------------------------	------------------------------	--

Llinell Sylfaen a Gwrthffeithiol	£121.00	£111.00
80%	£96.80	£88.80
60%	£72.60	£66.60

Dehongli allbynnau

Mae'r llinell sylfaen a'r ddau senario gyda'i gilydd yn golygu bod modd archwilio effeithiau penodol ar sail cymhariaeth amrywiol ar draws allbynnau'r modelau. Amcangyfrifir effaith efelychiadol y senario Gwrthffeithiol (BAU) ar sail y newid yn erbyn y llinell sylfaen.

Gellir amcangyfrif effaith efelychiadol y senarios Tapr trwy gyfrifo'r gwahaniaeth o ran newid rhwng y senario Gwrthffeithiol (BAU) a phob un o'r senarios Tapr h.y. y gwahaniaeth rhwng y gwerthoedd a ragwelir ar gyfer y senarios Tapr a'r gwerthoedd a ragwelir ar gyfer y senario Gwrthffeithiol. Mae hyn yn golygu bod modd gwahanu effaith y tapr BPS oddi wrth ffactorau eraill yn y model (e.e. yr amgylchedd rheoleiddiol).

Mae pob senario yn defnyddio'r un llinell sylfaen, felly ni ellir ystyried yr allbynnau yn rhai dilyniannol nac fel dangosyddion cyfres amser.

Ymatebion ffermydd model

Mae ymateb ffermydd model i'r senarios yn seiliedig ar wneud yr elw mwyaf o dan gyfyngiadau. Mewn unrhyw senario penodol, gall ffermydd wneud newidiadau i arferion rheoli, defnydd tir a stocio er mwyn gwneud yr elw mwyaf. Mae'r newidiadau hyn wedi'u cofnodi yn allbynnau'r modelau.

Fodd bynnag, nid yw ffermydd model yn gallu trosglwyddo i fath o fferm sy'n fwy proffidiol o dan y senarios a gyflwynir yma, felly mae unrhyw newidiadau i fodel busnes fferm yn digwydd oddi mewn i fath presennol y fferm. Felly, dylid ystyried canlyniadau fel y rhai a allai godi dros y tymor byrrach, yn hytrach nag fel dangosydd ar gyfer unrhyw ailstrwythuro yn y diwydiant a allai ddigwydd dros gyfnod hirach.

Nid yw sbardunau ymddygiadol posibl yn cael eu hystyried, gan eu bod yn rhy amrywiol i roi cyfrif hyderus amdanynt yn y model.

Canlyniadau

Mae'r adrannau canlynol yn cyflwyno canlyniadau o'r ddau senario Tapr o gymharu â chanlyniadau o'r senario Gwrthffeithiol (BAU - 100% BPS).

Mae newidiadau o ganlyniad i'r senario Gwrthffeithiol yn cael eu cyfrifo yn erbyn y llinell sylfaen.

Mae newidiadau o ganlyniad i'r senarios Tapr yn cael eu cyfrifo yn erbyn y newid yn y senario gwrthffeithiol. Felly, mae canlyniadau ar gyfer y senarios Tapr yn dangos y newid ychwanegol efelychol mewn canlyniadau o gymharu â'r rhai yn y senario Gwrthffeithiol.

Ceir canlyniadau ar gyfer:

- Efelychiad o daliadau
- Incwm y Busnes Fferm (FBI)
- Defnydd tir
- Da byw
- Mewnbynnau maetholion

Efelychiad o Daliadau Llywodraeth Cymru i ffermydd

Mae'r IMP yn modelu ffermydd amser llawn yn unig ac nid yw'n cynnwys taliadau neu weithredoedd ar dir comin. Mae'r ychwanegiad Ffermwyr Ifanc wedi'i eithrio hefyd. Felly, mae'r efelychiad o wariant yn is na'r ffigur sy'n cynnwys poblogaeth lawn y fferm a'r tir cysylltiedig.

O dan y senario Gwrthffeithiol, mae cyfanswm o £143.5 miliwn mewn BPS yn cael ei efelychu i'w dalu i ffermydd model (Tabl 3).

O dan y senarios Tapr, telir cyfanswm o £114.8 miliwn o dan y senario tapr 80% (gostyngiad o £28.7 miliwn) a thelir £86.1 miliwn o dan y senario tapr 60% (gostyngiad o £57.4 miliwn).

Yn ôl math o fferm, y gwariant uchaf o dan y senarios Gwrthffeithiol a Thapr yw'r gwariant tuag at ffermydd Defaid Arbenigol (SDA), ffermydd Llaeth, a ffermydd pori cymysg SDA (Tabl 3). Mae hyn yn adlewyrchu niferoedd ac arwynebedd mwy y ffermydd hyn. Mae'r gostyngiadau mwyaf mewn taliad BPS cyfanredol i'w gweld ar y ffermydd hyn hefyd.

Tabl 3. Efelychiad o wariant cyfanredol yn ôl math o fferm

Efelychiad o daliadau cyfanredol (£m)	BPS 100%	BPS 80%	BPS 60%
Grawnfwydydd	2.6	2.1	1.6
Cnydau Cyffredinol	1.0	0.8	0.6
Llaeth	25.0	20.0	15.0
Gwartheg a defaid yr iseldir	10.4	8.3	6.2
Cymysg	5.0	4.0	3.0
Arall	2.9	2.3	1.8

Defaid Arbenigol (SDA)	48.8	39.1	29.3
Gwartheg Eidion Arbenigol (SDA)	4.7	3.8	2.8
SDA cymysg	23.6	18.9	14.1
Pori cymysg DA	19.5	15.6	11.7
Cyfanswm	143.5	114.8	86.1
Newid absoliwt o'r senario Gwrthffeithiol		-28.7	-57.4

FBI cyfanredol

O dan y llinell sylfaen, cyfanswm Incwm Busnes Fferm (FBI) cyfanredol o'r ffermydd model amser llawn yw £345.9 miliwn (Tabl 3). Ffermydd llaeth sydd â'r gyfran fwyaf (59%), yna Defaid Arbenigol (12%), ac yna Pori Cymysg DA (9%). Y sectorau sydd â'r cyfrannau lleiaf yw Cnydau Cyffredinol (0.4%), Grawnfwydydd (1%) ac Eraill (1%). Mae hyn yn adlewyrchu niferoedd llai ac arwynebedd llai y ffermydd hyn.

O dan y senario Gwrthffeithiol, mae'r FBI cyfanredol yn lleihau 13.6% o gymharu â'r llinell sylfaen. Mae hyn yn deillio'n bennaf o ostyngiad mewn Unedau Da Byw Pori Llaeth (GLUau) mewn perthynas â rheoliadau CoAP, costau allforio Nitrogen y mae'r ffermydd hyn yn eu hwynebu o ganlyniad i derfynau defnyddio Nitrogen, a'r terfynau defnydd eu hunain. Nid yw'r terfynau hyn yn effeithio ar ffermydd gwartheg eidion a defaid, ond maen nhw'n ysgwyddo rhai o gostau ychwanegol y rheoliadau megis cyfnodau cau ar gyfer taenu, a chadw cofnodion. O gymharu â'r senario Gwrthffeithiol, mae tapro BPS i 80% yn lleihau cyfanswm yr efelychiad FBI 9.6%. Mae lefel FBI cyfanredol pob math o fferm yn gostwng, ond nid yw'r newid yn gymesur ar gyfer pob math o fferm. Mae'r gostyngiad ar gyfer rhai ffermydd yn fwy na'r gostyngiad o 20% mewn taliadau BPS, tra bod y gostyngiad yn llai ar gyfer ffermydd eraill. Mae hyn yn deillio o wahaniaethau rhwng mathau o ffermydd o ran pwysigrwydd cymharol y taliadau BPS (o gymharu â'r elw sy'n deillio'n uniongyrchol o'r mentrau fferm a ffynonellau incwm nad ydynt yn amaethyddol) i FBI fferm.

Yn ôl yr efelychiad, ffermydd Defaid Arbenigol sy'n gweld y gostyngiadau canrannol mwyaf yn yr FBI cyfanredol (gostyngiad o 23%, Tabl 4), yna ffermydd Gwartheg Eidion Arbenigol (gostyngiad o 21%) ac yna Gwartheg a Defaid yr Iseldir (gostyngiad o 20%). Mae'r tapro i 80% yn cael yr effaith leiaf ar ffermydd Llaeth (gostyngiad o 3%), ffermydd Cymysg (gostyngiad o 14%) a ffermydd Pori Cymysg DA (gostyngiad o 14%).

O gymharu â'r senario Gwrthffeithiol, mae tapro BPS i 60% yn lleihau cyfanswm yr efelychiad FBI 19.3%. Unwaith eto, mae FBI cyfanredol pob math o fferm yn gostwng, ond mae'r newid yn anghymesur o gymharu â'r gostyngiad 40% mewn taliadau BPS.

Ffermydd Defaid Arbenigol (SDA) sy'n gweld y gostyngiadau canrannol mwyaf yn yr FBI cyfanredol (gostyngiad o 46%), yna ffermydd Gwartheg Eidion Arbenigol (gostyngiad o 41%) ac yna Gwartheg a Defaid yr Iseldir (gostyngiad o

40%). Unwaith eto, y ffermydd sy'n gweld yr effaith leiaf yw ffermydd Llaeth (gostyngiad o 6%), Pori Cymysg DA (gostyngiad o 28%) a ffermydd Cymysg (gostyngiad o 27%).

Rhwng y ddau senario Tapr, mae'r taliad BPS is o dan y senario Tapr 60% yn lleihau efelychiad yr FBI cyfanredol 12.8% o gymharu â'r senario Tapr 80%. Ar gyfer pob math o fferm, unwaith eto mae'r newid yn anghymesur o gymharu â'r gostyngiad ychwanegol o 20% mewn taliadau.

Mae effaith yr efelychiad ar rai mathau o ffermydd yn fwy ar gyfer y gostyngiad BPS ychwanegol o 20% (Gwartheg a Defaid yr Iseldir, Defaid Arbenigol, Gwartheg Eidion Arbenigol, Pori Cymysg SDA), tra bod yr effaith ar fathau eraill o ffermydd yn is (Grawnfwydydd, Cnydau Cyffredinol, Llaeth, Pori Cymysg DA, Cymysg, Arall).

Tabl 3. Efelychiad o FBI cyfanredol yn ôl math o fferm

Cyfanswm FBI	Llinell sylfaen	Gwrthffeithiol	BPS 80%	BPS 60%
Grawnfwydydd	3.9	3.5	3.0	2.4
Cnydau Cyffredinol	1.5	1.3	1.1	0.9
Llaeth	205.5	171.3	166.3	161.3
Gwartheg a Defaid yr Iseldir	10.7	10.5	8.5	6.4
Cymysg	8.4	7.4	6.4	5.4
Arall	4.6	4.1	3.5	2.9
Defaid Arbenigol (SDA)	44.5	43.0	33.2	23.4
Gwartheg Eidion Arbenigol (SDA)	5.6	4.6	3.6	2.7
Pori cymysg SDA	29.1	25.1	20.4	15.7
Pori cymysg DA	32.3	28.1	24.2	20.3
Cyfanswm	345.9	298.9	270.1	241.3

Tabl 4. Efelychiad o'r newid canrannol yn yr FBI cyfanredol yn ôl math o fferm

% Newid yng nghyfanswm yr efelychiad o FBI o ffermydd amser llawn	% Newid o'r Llinell Sylfaen i'r senario Gwrthffeithiol	% Newid i'r Gwrthffeithiol i BPS 80%	% Newid i'r Gwrthffeithiol i BPS 60%	% Newid i'r BPS 80% i BPS 60%
Grawnfwydydd	-10.5	-15.2	-30.4	-17.9
Cnydau Cyffredinol	-11.0	-14.8	-29.7	-17.4
Llaeth	-16.7	-2.9	-5.9	-3.0
Gwartheg a Defaid yr Iseldir	-1.3	-19.8	-39.6	-24.7
Cymysg	-11.8	-13.6	-27.2	-15.8
Arall	-11.3	-14.6	-29.2	-17.1

Defaid Arbenigol (SDA)	-3.4	-22.8	-45.5	-29.5
Gwartheg Eidion Arbenigol (SDA)	-18.0	-20.5	-41.0	-25.8
Pori cymysg SDA	-13.5	-18.8	-37.6	-23.1
Pori cymysg DA	-12.9	-13.9	-27.8	-16.1
Cyfanswm	-13.6	9.6	19.3	-10.7

Defnydd tir

Nid yw newid defnydd tir o dan y senarios Tapr yn dangos effaith ddigon mawr i'w hystyried. Mae hyn yn gysylltiedig â nifer o ffactorau, gan gynnwys y ffaith nad yw ffermydd yn gallu ymateb i'r senario trwy newid y math o fferm ac nad oes llawer o systemau gwyndwn â'r lle mae da byw pori yn cystadlu â chnydau â'r am y tir. Yn yr enghraifft olaf hon, mae'n cyfyngu ar newidiadau i ffwrdd o gnydau mewn ymateb i'r senarios.

Tabl 5. Efelychiad o newid canrannol mewn defnydd tir

% newid mewn defnydd tir	Cnwd	Glaswellt Cylchdro	Glaswellt Parhaol	Glaswellt Garw
Llinell Sylfaen i'r Senario Gwrthffeithiol	-0.19	0.11	0.00	0.00
Senario gwrthffeithiol i BPS 80%	0.00	0.00	0.00	0.00
Senario gwrthffeithiol i BPS 60%	0.01	0.00	0.00	0.00
% gwahaniaeth mewn defnydd tir				
BPS 80% BPS o gymharu â BPS 60%	0.001	0.00	0.00	0.00

Newidiadau da byw

Mae ffermydd model yn gallu ymateb i senarios trwy optimeiddio rheolaeth eu busnes fferm o safbwynt economaidd o fewn eu math o fferm bresennol, sy'n cynnwys newidiadau stoc mewn perthynas â chynhyrchiant y tir, gofynion bwydo a phorthiant a chostau prynu bwyd anifeiliaid.

O dan y senario Gwrthffeithiol, ceir gostyngiad cyffredinol wedi'i fodelu o 2.8% mewn Unedau Da Byw Pori (GLU) o gymharu â'r llinell sylfaen. Nid yw GLUau Cig Eidion a Defaid yn cael eu heffeithio.

Nid oes unrhyw newidiadau efelychiadol mewn da byw o dan y senarios Tapr sy'n awgrymu bod ffermydd wedi'u stocio yn y ffordd orau.

Tabl 6. Efelychiad o newid canrannol mewn Unedau Da Byw Pori (GLU)

% Newid mewn GLUau	Eidion	Defaid	Llaeth	Cyfanswm
Llinell Sylfaen i'r Senario Gwrthffeithiol	-0.11	0.00	-9.01	-2.77
Gwrthffeithiol i BPS 80%	0.00	0.00	0.00	0.00f
Gwrthffeithiol i BPS 60%	0.00	0.00	0.00	0.00
% gwahaniaeth mewn GLUau				
BPS 80% o gymharu â BPS 60%	0.00	0.00	0.00	0.00

Crynodeb

Dull gweithredu

- Mae'r IMP yn amcangyfrif yr effeithiau ar gyfer 7,401 o ffermydd amser llawn yng Nghymru
- Defnyddiwyd tri senario:
 - Gwrthffeithiol: 100% o BPS⁸ ar gyfradd 2023 a'r gofynion rheoleiddiol cyfredol wedi'u cymhwyso
 - Tapr 80%: BPS wedi'i dalu ar 80% o gyfradd 2023 a'r gofynion rheoleiddiol cyfredol wedi'u cymhwyso
 - Tapr 60%: BPS wedi'i dalu ar 60% o gyfradd 2023 a'r gofynion rheoleiddiol cyfredol wedi'u cymhwyso

⁸Heb gynnwys ychwanegiadau tir comin neu Ffermwyr Ifanc

- Gellir deall effeithiau'r senarios Tapr trwy gymharu canlyniadau'r senario Gwrthffeithiol â chanlyniadau'r Tapr.

Incwm y Busnes Fferm

- O gymharu â'r senario Gwrthffeithiol, mae tapro BPS i 80% yn lleihau cyfanswm yr efelychiad FBI 9.6% ac mae tapro BPS i 60% yn lleihau cyfanswm yr efelychiad FBI 19.3%.
- Mae gostyngiadau cyfanredol yn yr FBI yn adlewyrchu cyfanswm gostyngiad y taliad o dan bob senario (20% o BPS, a 40% o BPS) ond mae'r effeithiau ar FBI yn ôl math o fferm yn anghymesur â'r gostyngiad canrannol yn y taliad.
- Mae'r ddau senario Tapr yn arwain at ostyngiad yn yr FBI cyfanredol ar gyfer pob math o fferm.
- O dan bob senario Tapr, mae gostyngiadau cyfanredol yn yr FBI ar gyfer rhai mathau o ffermydd yn fwy na 20% neu 40%, tra bod y gostyngiad yn llai ar gyfer mathau eraill o ffermydd gan adlewyrchu pwysigrwydd gwahanol BPS i broffidioldeb fferm.
- Nid yw effaith y gostyngiad ychwanegol o 20% yn y taliad BPS ar gyfer y senario Tapr 60% yn gymesur chwaith.
- Ar gyfer rhai mathau o ffermydd, mae'r 20% ychwanegol yn cael effaith gyfrannol is ar yr FBI na'r 20% cychwynnol a gafodd ei thynnu o dan y senario 80%.
- Ar gyfer mathau eraill o ffermydd, mae tynnu'r 20% ychwanegol yn cael mwy o effaith gymesur.

Newid Defnydd Tir a Stoc

- Nid yw newidiadau i dda byw a defnydd tir o ganlyniad i'r senarios Tapr yn cael effaith ddigon mawr i'w hystyried.
- Mae hyn yn gysylltiedig â'r ffaith nad yw ffermydd model yn gallu trosglwyddo i fathau mwy proffidiol o ffermydd ac na fyddai unrhyw fudd economaidd i ffermydd model newid eu stoc neu eu defnydd tir yn eu mathau presennol o ffermydd gan eu bod eisoes wedi'u stocio yn y ffordd orau mewn perthynas â'u cynhyrchiant tir, gofynion bwyd a phorthiant a chostau bwyd anifeiliaid.